Mae Llywodraeth Cymru, drwy Cadw, eisoes wedi buddsoddi'n sylweddol mewn cyflwyno hanes a diwylliant Caernarfon, er enghraifft mewn perthynas â Chastell Caernarfon, sy'n rhan o Safle Treftadaeth y Byd, a Chaer Rufeinig Segontium. Mae Castell Caernarfon ei hunan yn denu dros 190,000 o ymwelwyr y flwyddyn i'r ardal, ac mae'r safle hefyd yn gartref i Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, sy'n denu dros 90,000. Er nad yw'n ganolfan sydd wedi ei hadeiladu'n bwrpasol, mae'r wybodaeth ddehongli sydd ar gael yn y Castell yn egluro sut mae tref Caernarfon wedi datblygu. Mae'r safleoedd hyn hefyd yn cael eu defnyddio i gynnal gwaith maes pwysig a phrosiectau ar gyfer ennyn diddordeb y gymuned. Yn ogystal â hyn i gyd, bydd prosiect adnewyddu'r glannau yng Nghaernarfon, sef prosiect partneriaeth sy'n tynnu ynghyd nifer o asiantaethau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn creu cyfleoedd i ddehongli treftadaeth bwysig Caernarfon mewn modd integredig, arloesol a chreadigol. Er enghraifft, mae cynigion yn cael eu datblygu ar gyfer prosiect adnewyddu sy'n brosiect celfyddydau cymunedol sy'n manteisio ar hanes cyfoethog Caernarfon.

Er y byddwn yn gefnogol i'r syniad o greu canolfan treftadaeth newydd yng Nghaernarfon, rwy'n credu y byddai angen arwain menter o'r fath, a'i hariannu, yn lleol er mwyn iddi fod yn gynaliadwy. Byddwn yn hapus i fy swyddogion yn Cadw a CyMAL gynnig cyngor a chanllawiau pe bai'r Gymdeithas Ddinesig yn awyddus i fwrw ymlaen â'r syniad hwn.

Yn gywir

Ken Skates AC / AM
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff

Tudalen 54

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Ken.Skates@wales.gsi.gov.uk
Printed on 100% recycled paper

Pennaeth Economi a Chymuned Head of Economy & Community

Sioned E. Williams

Gofynnwch am/Ask for: Sioned E Williams

☎ (01286) 679547

✉ SionedEWilliams@gwynedd.gov.uk

Ein Cyf / Our Ref: SEW/gh

Eich Cyf / Your Ref: P-04-562



4ydd o Fedi, 2014

Mr. William Powell, AC/AM,
Cadeirydd Pwyllgor Deisebau Llywodraeth Cymru,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd. CF99 1NA

(Stephen.George@wales.gov.uk)

Annwyl William Powell AC/AM,

Deiseb 562: Canolfan Treftadaeth i Gaernarfon

Diolch i chi am eich llythyr a dderbyniwyd ar 31ain o Orffennaf, 2014 ar ran Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch deiseb i sefydlu Canolfan Treftadaeth i Gaernarfon.

Ers rhai blynnyddoedd bellach mae cynlluniau wedi eu trafod a'u gweithredu i wella dehongli treftadaeth Caernarfon. Mae Cyngor Gwynedd yn gefnogol iawn i'r egwyddor o ddatblygu Caernarfon fel cyrchfan treftadaeth a diwylliant o'r ansawdd orau ac yn ceisio'n barhaol i gefnogi datblygiadau nodweddiadol i wella'r dref.

Fel rhan o gynllun strategol y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2014 – 2017 mae blaenoriaeth wedi ei roi i 'Adeiladu ar ein Cryfderau' ac fel rhan o hyn bydd cynlluniau yn cael eu gweithredu i ddatblygu Glannau Caernarfon ger Safle Treftadaeth y Byd y Castell. Er bod elfennau o'r cynlluniau angen eu cadarnhau a'u datblygu ymhellach, mae'n debygol iawn y byddant yn cynnwys elfennau treftadaeth a chelfyddyd – sy'n cyd-fynd â'n gweledigaeth ar gyfer y dref.

Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi buddsoddi tua £60,000 mewn arddangosfa newydd, 'Ein Caernarfon' i ddehongli hanes Caernarfon yn Oriel Pendeitsh. Cyllidwyd y prosiect trwy brosiect Twristiaeth Treftadaeth Cadw a gyllidir trwy'r Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop. Mae'r arddangosfa ar sail llinell amser yn dehongli uchafbwyntiau treftadaeth Caernarfon a'r ardal ers y cyfnod cynhanes hyd heddiw. Yn ogystal â hyn, fe gyllidwyd nifer o baneli dehongli treftadaeth yng Nghaernarfon fel rhan o brosiect Adfywio a gyllidwyd gydag arian Cydgyfeirio Ewrop.

Yn dilyn y diddordeb sydd wedi ei ddangos yn yr arddangosfa 'Ein Caernarfon', rydym bellach hefyd yn rhaglennu arddangosfeydd treftadaeth yn y Ganolfan Groeso yn Oriel Pendeitsh gyda dogfennau o ddiddordeb lleol sydd ar gadw yn Archifdy Caernarfon.

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd. LL55 1SH
01286 672255
www.gwynedd.gov.uk

Ar hyn o bryd, mae partneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor yn gweithio ar brosiect i ail-ddatblygu Amgueddfa ac Oriol Gwynedd ym Mangor. Mae'r prosiect £2.6m, a gyllidir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri, Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd, Prifysgol Bangor, Cyngor Celfyddydau Cymru a phartneriaid eraill; yn edrych i ail-ddatblygu Neuadd y Dref Bangor i fod yn amgueddfa agored a hygyrch fydd yn dehongli hanes cyfoethog Gwynedd ac yn cyfeirio pobl ymlaen i safleoedd o ddiddordeb ar draws y Sir.

Ein bwriad yw datblygu cyfres o lloerenni i'r amgueddfa newydd ar draws Gwynedd a bydd un o'r lloerennau hynny wedi eu lleoli yn Oriol Pendeitsh, Caernarfon. Nod y lloerennau fydd arddangos creiriau o ddiddordeb yn lleol ac hefyd i weithio gyda chymunedau lleol i ddatblygu prosiectau treftadaeth. Fel rhan o'r prosiect rydym hefyd yn cydweithio efo Cadw i weithredu prosiectau treftadaeth cymunedol yn benodol yng Nghaernarfon ar safle Segontium.

Er bod Cyngor Gwynedd yn gefnogol i'r egwyddor o ddatblygu Canolfan Treftadaeth i Gaernarfon, mae llawer o drefi a chymunedau ar draws Gwynedd hefyd yn ceisio datblygu canolfannau tebyg ac felly mae'n rhaid rheoli disgwyliadau arnom. Yn anffodus, yn yr hinsawdd ariannol, nid oes modd i'r Cyngor ddatblygu canolfannau treftadaeth ym mhob cymuned o fewn y Sir, ond yn amlwg rydym yn fodlon cefnogi prosiectau cynaliadwy sy'n cael eu datblygu gan ein cymunedau. Byddai'r Cyngor felly yn croesawu cydweithio ar unrhyw ymdrechion sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru i gryfhau'r ddarpariaeth treftadaeth yn lleol.

Os hoffech dderbyn mwy o wybodaeth am y pwyntiau o godir uchod, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir,



Sioned E Williams

Pennaeth Economi a Chymuned

P-04-585 Newidiadau i gyffordd yr A494A470 yn Nolgellau

Manylion:

Yn ystod y chwe wythnos ers cwblhau'r newidiadau i gyffordd yr A494/ A470 yn Nolgellau, cafwyd tair damwain ffordd ddifrifol, lladdwyd dau, niweidiwyd dau'n ddifrifol a chafodd dau arall fân anafiadau. Mae llawer o bobl leol wedi mynegi pryder ac, o gofio bod gwyliau'r haf ar fin dechrau, ac y bydd traffig yn cynyddu yn y gyffordd hon, mae rhagor o ddigwyddiadau o'r fath yn debygol. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried, fel mater o frys, newid y gyffordd hon cyn y caiff pobl eraill eu lladd neu cyn i'w bywydau newid er gwaeth.

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae'r gyffordd hon wedi peri pryder erioed, ond ers y newidiadau chwe wythnos yn ôl, mae pobl leol wedi bod yn gyndyn o'i defnyddio ac maent yn ceisio'i hosgoi os oes modd. Mae'r marwolaethau a'r anafiadau'n wastraff diangen a gellid achub bywydau pe bai system gliriach ar waith; cylchfan fechan efallai neu arwyddion ychwanegol o leiaf, yn y tymor byr..

Prif ddeisebydd: Kathryn White

Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 23 Medi 2014

Nifer y llofnodion: 1,288 llofnod a'r lein a 1,581 llofnod papur. Cyfanswm 2,869.

Edwina Hart MBE CStJ AC / AM
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Minister for Economy, Science and Transport



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-585
Ein cyf/Our ref EH/05284/14

William Powell AC

deisebau@cymru.gov.uk

10 Hydref 2014

Annwyl William,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 30 Medi ynghylch deiseb P-04-585 Newidiadau i gyffordd yr A494/A470 yn Nolgellau.

Rwy'n ymwybodol fod pobl leol yn pryderu ynghylch diogelwch cyffordd yr A470/A494 yn Nolgellau. Rwy'n cymryd materion diogelwch ffyrdd o ddifrif ac rydym yn cydweithio'n agos â'r heddlu wrth iddynt ymchwilio i ddamweiniau diweddar.

Fel mesur brys, mae goleuadau traffig dros dro wedi cael eu gosod i reoli cyffordd yr A470/A494 yn y tymor byr. Bydd CCTV hefyd yn cael ei osod dros dro yn y gyffordd hon ac yng nghyffordd yr A470/A493, er mwyn ein helpu i ddadansoddi ymddygiad gyrwyr. Dylid nodi hefyd nad yw'r heddlu wedi gorffen ymchwilio i achos y damweiniau. Unwaith bydd y gwaith hwn ar ben, bydd fy swyddogion yn penderfynu pa gamau fydd angen eu cymryd yn y tymor canolig a'r hirdymor er mwyn cynnal diogelwch y gyffordd hon.

P-04-594 Apêl Cyngor Cymuned Cilmeri ynghylch y Gofeb i'r Tywysog Llywelyn

Manylion:

Oherwydd pwysigrwydd cenedlaethol Cofeb y Tywysog Llywelyn, mae cymuned Cilmeri yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i:

- Godi arwyddion brown at y gofeb â delwedd o faes brwydr arnynt ar yr A483 ar y ddwy brif ffordd sy'n mynd i mewn i'r pentref er mwyn dynodi arwyddocâd hanesyddol ein pentref;
- Gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Powys, Cyngor Cymuned Cilmeri a Cadw i helpu â gwaith cynnal a chadw'r gofeb enwog, er mwyn i ymwelwyr allu mwynhau ein safle sydd o arwyddocâd cenedlaethol a hanesyddol mewn amgylchedd diogel a phriodol;
- Helpu i ddod o hyd i adnoddau i weithredu, gam wrth gam, Cynllun Dehongli Lloyd Brown (Ionawr 2013) a gomisiynwyd gan Cadw.

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae'r cynllun dehongli yn rhoi sylw i'r ffaith mai Llywelyn oedd Tywysog brodorol olaf Cymru i farw ar faes y gad, gan nodi diwedd llinach bwerus Gwynedd, a oedd yn bwysig wrth feithrin ymdeimlad o genedligrwydd a hunaniaeth Gymreig.

Prif ddeisebydd: Apêl Cyngor Cymuned Cilmeri

Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 23 Medi 2014

Nifer y llofnodion: 305

Edwina Hart MBE CStJ AC / AM
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Minister for Economy, Science and Transport



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-594
Ein cyf/Our ref EH/05287/14

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebiadau

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

16 Hydref 2014

Annwyl William,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Medi ynghylch deiseb P-04-594 - Cofeb Llywelyn yng Nghilmeri.

Mae'r A483 yn gefnffordd, ac felly byddai'n rhaid inni gytuno ar unrhyw newidiadau arfaethedig i arwyddion ar gyfer ffiniau'r pentref. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion edrych i weld a fyddai'n bosib codi arwydd twristiaid i'r gofeb.

Rydym eisoes yn gweithio gyda Cyngor Sir Powys a Chyngor Cymuned Cilmeri i helpu i gynnal y gofeb, ac rydym wedi'u hysbysu o'r cymorth a'r cyllid posib sydd ar gael drwy Gynllun Grant Mentrau Dinesig (Treftadaeth).

Rydym wedi cydweithio hefyd ag Ymddiriedolaeth Abaty Cwmhir a Chyngor Sir Powys ac wedi darparu cyllid o oddeutu £10,000 i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu, gan godi dau fwrdd dehongli a gorchudd newydd i'r ffynnon ar y safle. Cododd y Cyngor ffens newydd o amgylch y gofeb ac ar hyd y grisiau i lawr i'r ffynnon. Cafodd y gwaith ei gwblhau cyn y seremoni goffâu flynyddol ym mis Rhagfyr 2013.

Y Cyngor sydd i weithredu'r argymhellion mwy hirdymor, sy'n cynnwys cael tir ar gyfer parcio, llwybr newydd, a seddi. Mae'n bosib y bydd rhywfaint o gyllid ar gyfer gwaith llai ar gael drwy'r Cynllun Grant Mentrau Dinesig (Treftadaeth).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu ychydig yn ôl
Tudalen y 60

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk
Printed on 100% recycled paper

P-04-599 Effaith Ardrethi Domestig ar Lety Hunan Arlwyo

Manylion:

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i:

1. Cynnal adolygiad ac asesiad effaith trylwyr o Orchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2010, gan gyfeirio'n benodol at:

a. y posibilrwydd o effaith andwyol ar fusnesau twristiaeth hunan arlwyo newydd, wrth iddynt ddatblygu eu strategaethau marchnata yn ystod y ddwy flynedd gyntaf o fasnachu;

b. effaith hollbwysig tywydd difrifol ar strategaethau marchnata ac felly cyfraddau cwsmeriaid mewn blwyddyn galendr benodol.

2. Ystyried canfyddiadau adolygiad o'r fath, yn benodol drwy roi cyfarwyddiadau i'r Swyddfa Brisio ar gyfer Ardrethu Annomestig yng Nghymru i fabwysiadu dull hyblyg sy'n ystyriol o fusnesau, gan gynnwys y posibilrwydd o hepgor y dreth gyngor yn ôl-weithredol, pan fo tystiolaeth glir o achos gwirioneddol.

3. Adolygu ei strategaeth marchnata twristiaeth cyffredinol, i sicrhau nad yw busnesau hunan arlwyo sydd wedi cofrestru â Croeso Cymru o dan anfantais yn sgil pwyslais anghyfartal ar dwristiaeth arfordirol a llety â gwasanaeth, megis mordeithio a gwestai.

Yn ogystal â meithrin hinsawdd gadarnhaol ar gyfer busnesau hunan arlwyo newydd, byddai hefyd yn trin busnesau yr un fath â rhai yn Lloegr a gwledydd eraill y Deyrnas Unedig ac yn sicrhau na fydd y sector hunan arlwyo, sydd mor hanfodol i economi twristiaeth Cymru, ar y cyrion mwyach.

Prif ddeisebydd: Chris Harris

Ysytirwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 23 Medi 2014

Nifer y llofnodion: 27

Edwina Hart MBE CStJ AC / AM
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Minister for Economy, Science and Transport



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-599
Ein cyf/Our ref EH/05282/14

William Powell AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

10 Hydref 2014

Annwyl William,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Medi ynghylch Deiseb P-04-599, oddi wrth Chris Harris, sy'n gofyn am adolygiad trylwyr o Orchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2010 ac am adolygiad o strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer marchnata twristiaeth.

Rwy'n ymwybodol o'r effaith y mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2010 weid'i chael ar fusnesau. O ganlyniad, rwyf wedi comisiynu'r Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw i gynnal adolygiad annibynnol o effeithiau'r Gorchymyn. Rhoddodd y Sefydliad ystyriaeth i safbwyntiau amrywiaeth eang o fusnesau a pherchnogion eiddo hunanddarpar yn ogystal â sefydliadau sy'n cynrychioli'r diwydiant a chyrrff perthnasol eraill.

Lansiwyd chwe wythnos o gyfnod ymgynghori ar ôl cyhoeddi adroddiad y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw, ac fe'i hysbysebwyd drwy borthol ymgynghori ar-lein Llywodraeth Cymru. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn uniogolion, perchnogion llety hunanddarpar a chynrychiolwyr y fasnach hunanddarpar. Mae'r ddogfen ymgynghori a'r crynodeb o'r ymatebion i'w gweld yma:


<http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/non-domestic-rating-consul/?status=open&lang=cy>

Yn dilyn yr adolygiad cychwynnol hwn, mae gwaith ar droed ar hyn o bryd i edrych ar eiddo hunanddarpar yng Nghymru er mwyn pennu pa gamau y dylid eu cymryd mewn perthynas ag unrhyw newidiadau posibl yn y ddeddfwriaeth. Un o'r ystyriaethau yw a ddylid llunio unrhyw ganllawiau i Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac i Awdurdodau Lleol.

Cafodd strategaeth farchnata twristiaeth Llywodraeth Cymru ei llunio ar ôl ymgynghori'n helaeth â'r diwydiant twristiaeth ac â rhanddeiliaid eraill. Mae'r strategaeth yn ymdrin â phob math o dwristiaeth yng Nghymru; mae'n cydnabod gwerth yr amrywiaeth eang a gynigir i ymwelwyr ac mae'n rhoi'r un pwysigrwydd i bob sector. Caiff y strategaeth a'r ymgyrchoedd marchnata eu monitro drwy gydol y flwyddyn gyda chanllawiau gan Fwrdd Cyngori Twristiaeth Cymru.

Rydym yn cwrdd yn rheolaidd â chynrychiolwyr o'r sector hunanddarpar ac mae trafodaethau ar y gweill gydag asiantaethau hunanddarpar ynghylch hyrwyddo'r sector hwn ymhellach i'r farchnad deuluol o fewn y DU fel rhan o'n hymgyrch farchnata ni ym mis Ionawr 2015.

Rwy'n hyderus y bydd yr adolygiadau a gynhaliwyd a'r trefniadau presennol yn ddigonol ac nad oes angen cymryd camau pellach ar hyn o bryd.



P-04-572 Grantiau ar gyfer Gwrthsefyll Llifogydd

Manylion:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gymeradwyo grantiau ar gyfer eiddo sydd wedi dioddef llifogydd yn ddiweddar, i ariannu gwaith i sicrhau eu bod yn fwy parod i wrthsefyll llifogydd yn y dyfodol.

Prif ddeisebydd Charles Edward Moore

Ysytirwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 15 Mehefin 2014

Nifer y llofnodion: 88

P-04-572 Grants for Flood Resilience – Correspondence from the Petitioner to the Committee, 13.10.14.

Dear Committee

Thank you for giving me the opportunity to respond to the NRW correspondence.

I would firstly like to inform the committee of the potential for flooding in our area. Our properties are in a natural “bowl”, created by the primary/secondary sea defences and the coast road which is some 4 feet above the lowest point of our estate.

The potential for flooding is not only from the sea but from sustained rain, such as which as happened as recently as 20th July this year when properties at the lowest part of the estate were very close to flooding yet again. Imagine how residents, some of who had only recently moved back in after the December flooding, felt when they saw the water level rising and approaching their homes. I have received correspondence from Chris Ruane M.P. who states that the amount of rain which caused homes to nearly flood was a 1 in 6 year event and I believe that this figure falls within the NRW remit to supply individual flood protection.

There have been occasions over the last years when the Fire Brigade have been called out to pump rain water from the lowest point of the estate to prevent flooding of properties.

In 1990 most of our properties flooded due to a coastal flood. As far as I know, no improvements were made to the primary sea defences at that time in our area to prevent future flooding.

Denbighshire Council are in consultation at the moment to evaluate the best way to prevent future coastal flooding. I have no information as to whether any action has been proposed to prevent any surface water flooding. They say that no measures to improve the primary defences will be implemented until 2016 at the earliest. I assume that, as the defences are the responsibility of DCC, and further budget cuts are imposed that this is optimistic.

I note that NRW seem to contradict themselves in the figures they present. Firstly they state that flood resilience cost an average of £1,200 per property but further

the state that it would cost “a few thousand per property to make homes in Wales flood resilient”. Which is it?

For information to the committee I would like to state that I have approached my insurer, NFU, and asked how much effect of making my property more flood resistant would have on my property insurance. They were not interested and stated that there would be no effect. I have seen no evidence of anyone working with the insurance industry. By NRW's own admission we are in a low risk flood area but the insurance industry don't consider this at all. I cannot move insurance companies and my insurance has now increased from £370 to £970 per year with £7500 flood excess.

I still believe, taking all these factors into account, and if there is no resolution to both forms of potential flooding in the short term, that there is a strong case for grants to be made available to make the homes on our estate more flood resilient immediately.

Yours Sincerely

C E Moore

Eitem 3.15

P-04- P-04-579 Adfer cyllid ar gyfer monitro Gwylogod Ynys Sgomer

Manylion

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi torri'r cyllid blynyddol o £12,000 y mae'n ei ddarparu ar gyfer y gwaith sy'n mynd rhagddo o fonitro Gwylogod Ynys Sgomer. Mae'r astudiaeth hon yn un hynod o bwysig sy'n rhoi mewnwelediad gwerthfawr i fywyd adar môr a'r hyn sy'n effeithio ar eu poblogaethau. Nid yn unig yw dod â set ddata sydd wedi cael ei chasglu cyhyd (ac sydd, felly, yn werthfawr) i ben yn drueni, ond ni allai'r toriad fod wedi dod ar adeg waeth, o ystyried effaith enfawr y stormydd diweddar ar boblogaethau adar môr (gyda 25,000 o farwolaethau ar hyn o bryd, a disgwylir i'r rhif hwnnw gynyddu). Mae hwn yn benderfyniad gwael iawn gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a hoffem ei weld yn cael ei ddiwygio.

Prif ddeisebydd Cardiff University Ornithological Society

Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 23 Medi 2014

Nifer y llofnodion: Deiseb gysylltiedig 1,687 o llofnodion



Eich cyf/Your ref P-04-579
Ein cyf/Our ref CS/05188/14

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

21 Hydref 2014

Annwyl William

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 30 Medi ynghylch deiseb Cymdeithas Adareg Prifysgol Caerdydd am y cyllid ar gyfer monitro gwylogod ar Ynys Skomer.

Mae ardaloedd bridio pwysig yng Nghymru ar gyfer adar môr, gan gynnwys gwylogod, ac rwy'n cydnabod pwysigrwydd monitro'r amrywiadau ym mhoblogaethau'r adar hyn. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gontract gyda'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur i gynnal arolygon blynyddol o'r adar môr ar Ynys Skomer, gan gynnwys gwylogod.

Gwn fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi penderfynu, yn gynharach eleni, peidio ag adnewyddu contract penodol gyda Phrifysgol Sheffield i gynnal arolwg o'r gwylogod ar Skomer. Oherwydd y cynnydd hirdymor yn niferoedd y gwylogod ar yr ynys, a'r ffaith bod y rhywogaeth hon yn mynd i gael ei monitro o hyd o dan gontract y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, rwy'n dawel fy meddwl na fydd diffyg data na gwybodaeth am yr adar hyn. Wrth gwrs, bydd CNC yn parhau i fonitro ac adolygu'r anghenion a gofynion yn hyn o beth.

Yn ddiweddar, rhoddais fy sêl bendith i estyn ffiniau'r tair Ardal Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer adar môr sy'n bridio a diweddarau'r rhestr o rywogaethau perthnasol. Mae'r Ardaloedd Gwarchodaeth bellach yn cynnwys yr ardaloedd morol sy'n hanfodol bwysig ar gyfer bwydo, llyfnu ac ymddygiadau eraill yn ystod tymor bridio'r adar. Erbyn hyn, mae'r môr wrth ymyl yr ardaloedd nythu'n mwynhau'r un lefel o warchodaeth â'r safleoedd nythu eu hunain, a bydd hyn yn siŵr o gynnal twf poblogaeth y gwylogod ac adar môr eraill. Yn ogystal, bydd estyn yr Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig hyn yn gwella profiad ymwelwyr yn y dyfodol, yn

enwedig y rheini sy'n mynd ar dripiâu i fwynhau bywyd gwyllt y mannau hynod hyn.

Yn gywir

A handwritten signature in cursive script, reading "Carl Sargeant".

Carl Sargeant AC / AM
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources

P-04-583 Gwahardd Tyfu a Gwerthu unrhyw Hadau Bwydydd a Phorthiant Anifeiliaid Pysgod GM yng Nghymru

Manylion:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sefydlu, cyn belled ag y mae hynny'n gyson â chyfraith yr UE, Ddeddf sy'n gwahardd unrhyw fwyd, planhigion a hadau GM rhag cael eu tyfu a'u gwerthu yng Nghymru, yn ogystal ag organebau a addaswyd yn enetig a ddefnyddir mewn unrhyw borthiant anifeiliaid, anifeiliaid hela a physgod. Mae sofraniaeth bwyd ac iechyd yn fater hollbwysig i ddyfodol Cymru a'r byd ac mae'n rhywbeth a fydd yn gwahaniaethu cynhyrchion bwyd o Gymru ymhellach, mewn ffordd gadarnhaol, yn y farchnad fyd-eang. Fel y dangoswyd gan y gwaith gwych a wnaed gan GM Free Cymru a gwyddonwyr allweddol fel Irina Ermakova, yr Athro Vyvyan Howard a Malcolm Hooper, Dr Stanley Ewen, Dr Arpad Pusztai, Manuela Malatesta a chydweithwyr ym Mhrifysgolion Pavia ac Urbino yn yr Eidal ymhlith rhai eraill, mae tystiolaeth ddiymwad ar gael erbyn hyn am beryglon cynhenid bwydydd GM.

Gwybodaeth ychwanegol:

Dywedodd Dr Brian John o GM Cymru: "Ymddengys fod y Comisiwn Ewropeaidd yn benderfynol o gyhoeddi un caniatâd GM dadleuol ar ôl y llall, gan seilio ei benderfyniadau ar waith ymchwil hynod ddewisol a rhagfarnllyd gan yr ymgeiswyr eu hunain, a chael arweiniad gan awdurdod diogelwch bwyd Ewropeaidd a ddirmygir ac sydd wedi colli hyder cyrff anllywodraethol a grwpiau defnyddwyr ledled Ewrop". Mae gwleidyddion yn hyrwyddo rhinweddau'r cwmnïau biotechnoleg mawr fel Monsanto er gwaethaf lleisiau cyhoeddus a gwyddonol croes arwyddocaol. Mae codi patent ar natur ac ymyrryd drwy beirianeg enetig hefyd yn weithred yn erbyn natur ei hun ac yn codi'r cwestiwn o ran moesoldeb, moeseg, hawliau naturiol a dynol. Mae nifer gynyddol o wledydd fel Hwngari, Awstria, Bwlgaria, Gwlad Groeg, Japan, y Swistir, y Basg a Periw, i enwi ond ychydig, bellach yn diarddel y cawr

technoleg gemegol a biolegol Monsanto, ac yn cael gwared ar unrhyw gnydau, hadau, planhigion a bwydydd GM o'u gwlad.

Prif ddeisebydd : Cymru Sofren / Sovereign Wales

Ysytirwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 23 Medi 2014

Nifer y llofnodion: 13

Rebecca Evans AC / AM
Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd
Deputy Minister for Farming and Food



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-583
Ein cyf/Our ref RE/05122/14

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

23 Hydref 2014

Annwyl Bill

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Medi ynghylch agwedd Llywodraeth Cymru at bolisïau ar addasu genetig (GM). Polisi Llywodraeth Cymru ers cryn dipyn o amser yw bod yn rhagofalus a chyfyngu ar dyfu cynydau GM, yn unol â deddfau'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Rydym yn cydnabod nad yw'r gyfraith yn caniatáu i Lywodraeth Cymru wahardd cynydau GM yng Nghymru gan fod rhaid i ni weithio oddi mewn i fframwaith cyfreithiol Ewropeaidd. Mae cynydau GM yn cael eu cymeradwyo ar lefel yr UE yn dilyn asesiad risg llawn ac, o ganlyniad, mae unrhyw fath o hadau GM sydd yng Nghatalog Hadau Cyffredin y Comisiwn Ewropeaidd ar gael i'w marchnata ar draws yr UE.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod nad oes consensws o hyd mewn llenyddiaeth wyddonol ac adroddiadau ynghylch GM ar amrywiol faterion megis iechyd pobl ac anifeiliaid, diogelwch yr amgylchedd na materion economaidd-gymdeithasol sy'n codi yn sgil cyflwyno cynydau GM a'r drefn o ddefnyddio chwynladdwr o ganlyniad. Ein polisi, felly, yw bod yn ofalus a chynabod yr angen i ddiogelu ein buddsoddiad mewn amaethyddiaeth lân a chynaliadwy a'n hamgylchedd a thirwedd unigryw.

Mae Llywodraeth Cymru'n gwbl gefnogol i gynnig y Comisiwn Ewropeaidd i ganiatáu i Aelod-wladwriaethau ddewis rhwng tyfu cynydau GM sydd wedi'u hawdurdodi yn eu gwledydd neu beidio. Llwyddwyd i gael cytundeb gwleidyddol i'r cynnig hwn yng Nghyngor yr Amgylchedd ar 12 Mehefin, a mabwysiadwyd y cynnig yn ffurfiol gan Gyngor yr Undeb Ewropeaidd ar 23 Gorffennaf. Mae'r ffeil bellach wedi'i phasio i Senedd Ewrop ei hystyried. Ar ôl mabwysiadu'r cynnig, rwy'n credu y bydd gennym fwy o reolaeth dros dyfu unrhyw gnydau GM yng Nghymru yn y dyfodol.

Credwn fod angen cynnal gwerthusiad ehangach a chyflawn o organebau wedi'u haddasu'n enetig cyn eu cymeradwyo. Dylai'r broses cymeradwyaeth reoleiddiol ystyried materion economaidd-gymdeithasol yn ogystal ag iechyd pobl a'r amgylchedd. Dyma farn nifer o'r Aelod-wladwriaethau, ac mae'r Comisiwn yn cydnabod hyn. Felly rwy'n croesawu'r ymrwymiad diweddar gan ddarpar Lywydd y Comisiwn Ewropeaidd i adolygu'r system awdurdodi bresennol ar gyfer organebau wedi'u haddasu'n enetig.

Gan droi at faterion yn ymwneud â bwyd a phorthiant, yr Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n arwain polisi'r Deyrnas Unedig ar ddiogelwch bwyd a phorthiant GM, a materion yn ymwneud â labelu. Nid yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd o blaid nac yn erbyn GM. Mae'n ystyried y dylid gwerthuso cynnyrch GM fesul achos unigol, a bod rhaid dangos eu bod yr un mor ddiogel â bwyd neu borthiant confensiynol (heb ei addasu'n enetig) cyn caniatáu iddynt gyrraedd y farchnad. Mae'r Asiantaeth o'r farn y dylai defnyddwyr fedru gwneud dewis doeth ynghylch prynu bwyd GM neu beidio drwy labelu'r bwyd yn gywir.


Mae'r drefn bresennol ar gyfer gwerthuso ac awdurdodi bwyd a phorthiant wedi'u haddasu'n enetig (GM) wedi'i gosod yn Rheoliad (EC) 1829/2003 a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2004. Mae'r asesiadau diogelwch yn cael eu cynnal gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop, yn ôl canllawiau a gyhoeddwyd ar gyfer asesu organebau wedi'u haddasu'n enetig.

Mae pob cais yn cael ei adolygu fesul achos unigol, gan roi ystyriaeth fanwl i'r perygl o effeithiau gwenwynig, maethol ac alergenig. Cyn awdurdodi gwerthu bwydydd GM, rhaid dyfarnu nad ydynt yn peryglu iechyd, nad ydynt yn camarwain defnyddwyr, ac nad ydynt yn llai maethlon na'r bwydydd y bwriedir eu disodli. Wrth werthuso, gall Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ymgynghori gyda'r awdurdod sy'n gyfrifol am asesu diogelwch bwyd yn un o Aelod Wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n gwneud hyn yn y DU, gan ofyn am gyngor ynghylch bwydydd GM gan y Pwyllgor Cynghori ar Fwydydd a Phrosesau Newydd yn ôl y gofyn. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn fodlon bod asesiadau diogelwch Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop yn gadarn ac yn sylfaen dda ar gyfer penderfyniadau. Yn gyson â pholisïau sydd wedi'u datgan gan y Llywodraeth, dylai penderfyniadau ynghylch awdurdodi fod yn gymesur ac wedi'u seilio ar wyddoniaeth.

Ar sail yr asesiadau hyn, barn yr Asiantaeth Safonau Bwyd yw nad oes rheswm dros gredu bod porthiant GM yn peryglu da byw fferm yn fwy na phorthiant confensiynol. Mae porthiant GM, sy'n annhebygol iawn o gynnwys organebau wedi'u haddasu'n enetig sy'n hyfyw, yn cael ei dreulio gan anifeiliaid yn yr un ffordd â phorthiant confensiynol. Mae bwydydd sy'n dod o anifeiliaid sydd wedi bwyta crydau GM awdurdodedig yn cael eu hystyried yr un mor ddiogel â bwydydd o anifeiliaid sydd wedi bwyta crydau di-GM.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cefnogi'r egwyddor o ganiatáu i'r defnyddwyr ddewis ar sail labelu cywir, gan gydnabod y bydd rhai pobl yn dewis peidio prynu bwyd GM waeth pa mor ofalus oedd yr asesiad diogelwch.

Yn gywir



Rebecca Evans AC / AM

Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd
Deputy Minister for Farming and Food

P-04-583 Ban all Growing and Selling of all GM seeds / Foods and Animal / Fish Feed in Wales – Correspondence from the Petitioner to the Clerking Team, 30.10.14.

Dear Kayleigh,

Please see my response to Rebecca Evans, Deputy Minister for Farming and Food dated October 23rd 2014:

It's very encouraging to see that the Welsh Government has a long standing restrictive and precautionary approach to GM crop cultivation, that it admits that there remains no consensus on a range of issues such as animal and human health, environmental issues or socio economic issues and that a broader and more holistic evaluation of GMO's should be undertaken before they are approved.

Given this I fail to see how the Welsh Government can or should agree with the FSA's view that GM feed "represents any more risk to farmed livestock than conventional feed and that food from animals fed on authorised GM crops is considered as safe as food from animals fed on non GM crops". Given that humans often eat animals that are fed with GM feed and that animal health is also obviously an issue, it seems obvious that it makes no sense to follow the FSA's advice given the other statements made by the Welsh Government as seen in the letter. The letter from the Minister for Farming and Food on behalf of the Welsh Governemnt therefore seems confused and contradictory. As demonstrated in my earlier reply there is an abundance of evidence from a wide variety of sources that GM is a danger to short and long term human and environmental health and is also ethically wrong and environmentally dangerous. Either the Welsh Government takes a precautionary approach to GM/GE/GMO or it doesn't is how I would summarise my points,

Maybe the Minister could clarify her position further on this crucial precautionary issue,

Thanks again,
G.Meredith

Eitem 3.17

P-04-595 Llwybr Foresight

Manylion:

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddiogelu iechyd a lles hanfodol pobl Cymru yn y dyfodol drwy sicrhau bod person annibynnol yn uniongyrchol gyfrifol am ddiogelwch bwyd, gan ddarparu trosolwg ar y broses o gynhyrchu bwyd yn y dyfodol. Rhaid i'r person hwn fod yn atebol i Brif Weinidog Cymru. Mae diogelu'r broses o gynhyrchu bwyd o'r pwys mwyaf i bobl Cymru. Mae ynni eisoes yn rhan o gylch gwaith Prif Weinidog Cymru.

Gwybodaeth ychwanegol:

Er ein bod yn cydnabod ei bod yn bwysig diogelu'n hamgylchedd naturiol, rydym yn credu'n daer fod yn rhaid i'r broses o gynhyrchu bwyd gael ei hariannu drwy ddulliau sy'n gwrthsefyll chwyddiant, gan gynnwys pob sector amaethyddol yng Nghymru, ac y dylid cynnwys hyn yng nghylch gwaith Prif Weinidog Cymru. Byddai hyn yn ffordd o fynd i'r afael â'r anniddigrwydd a'r diffyg hyder difrifol yn nyfodol y diwydiant, sydd wedi niweidio amaethyddiaeth yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn argyhoeddedig y gellir sicrhau dyfodol ein cenedl dros y blynyddoedd cythryblus nesaf os bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod darparu cyflenwad bwyd dibynadwy a digonol yn un o'i hamcanion canolog.

Prif ddeisebydd: David Hardwick

Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 23 Medi 2014

Nifer y llofnodion: 2 llofnod a'r lein a 89 llofnod papur. Cyfanswm 91

Rebecca Evans AC / AM
Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd
Deputy Minister for Farming and Food



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-595
Ein cyf/Our ref RE/05082/14

William Powell AM
Chair Petitions Committee
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

22 Hydref 2014

Annwyl William,

Diolch i chi am eich llythyr diweddar at y Gweinidog dros Adnoddau Naturiol, dyddiedig 30 Medi, ynghylch y ddeiseb oddi wrth David Hardwick. Yr wyf yn ymateb gan fod materion diogelwch bwyd o dan fy nghyfrifoldeb uniongyrchol i fel y Dirprwy Weinidog ar gyfer Ffermio a Bwyd.

Mae diogelu iechyd a lles pobl Cymru yn ganolog i waith Llywodraeth Cymru. Mae rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy yn hanfodol i lwyddiant ein heconomi yn y dyfodol ac yn hanfodol i greu dyfodol ar gyfer ein holl gymunedau.

Mae Cymru mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau diogelwch bwyd. Drwy *'Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar Gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020'*, ein bwriad yw gweithio'n agos â rhanddeiliaid diogelwch bwyd er mwyn sicrhau ymagwedd gyfannol at gynnal cynhyrchu bwyd yng Nghymru, gan ddiogelu defnyddwyr o ganlyniad. Bydd hyn yn rhan o waith Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, a gaiff ei sefydlu'n fuan.

Mae'n amlwg na allwn weithredu ar ben ein hunain ar y materion hyn. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn bartner ac yn gyfrannwr i'r Rhaglen Diogelwch Bwyd Byd-eang; sef rhaglen aml-asiantaeth yn cydlynu ymchwil diogelwch bwyd ar draws Llywodraethau'r DU, cynghorau ymchwil y DU, a'r Bwrdd Strategaeth Technoleg.

Gan fod Bwyd a Ffermio yn un o sectorau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, mae'r Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) fel y mae'n ymwneud â bwyd, yn gyson â *'Tuag at Dwf Cynaliadwy'*. Bydd cyllid CDG yn chwarae rhan allweddol mewn cefnogi cynhyrchu bwyd drwy'r Cynllun Buddsoddi Busnes Bwyd, y Cynllun Datblygu yn y Gadwyn Gyflenwi, a drwy ddarparu cyngor a throsglwyddo gwybodaeth.

Yr wyf yn hyderus felly ein bod ar hyn o bryd, mewn sefyllfa dda i ymdrin â heriau diogelwch bwyd a all godi yn y dyfodol.

*Yn gywir,
Rebecca*

Rebecca Evans AC / AM
Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd
Deputy Minister for Farming and Food

P-04-592 Pleidleisiau gan Ddinasyddion sy'n Rhwymol yn Ddemocrataidd ar Lefel Llywodraeth Leol

Manylion:

Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddeddfu er mwyn galluogi dinasyddion Cymru i alw am bleidleisiau ar faterion ar lefel Llywodraeth Leol, ac i bleidleisiau o'r fath gael yr effaith o naill ai [1] galw penderfyniadau a wnaed gan gynghorau yn ôl i'w hailystyried, neu [2] gwneud pleidleisiau â mwyafrif o fwy na dwy ran o dair yn rhwymol yn ddemocrataidd.

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae Plebeian Laboratories yn ymwybodol o nifer ddirifedi o benderfyniadau a wneir ar lefel Llywodraeth Leol, sy'n effeithio'n negyddol ar fywydau dinasyddion, ond nad oes ganddynt fawr ddim cyfle i effeithio arnynt yn uniongyrchol. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae democratiaeth uniongyrchol wedi dod yn fwyfwy poblogaidd mewn llawer o wledydd ledled y byd fel ffordd o hybu cyfranogiad dinasyddion a hawliau democrataidd. Go brin y byddai Aelodau'r Cynulliad yn pleidleisio i wneud democratiaeth uniongyrchol yn ddeddf ar lefel genedlaethol yng Nghymru, ond byddai rhywfaint o ddemocratiaeth uniongyrchol ar lefel Llywodraeth Leol yn sicr o roi hwb i ddemocratiaeth Cymru..

Prif ddeisebydd: Plebeian Laboratories

Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 23 Medi 2014

Nifer y llofnodion: 38

Leighton Andrews AC / AM
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-592
Ein cyf/Our ref LA /05066/14

William Powell AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

petition@cymru.gov.uk

Hydref 2014

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 30 Medi yn gofyn am fy marn ar ddeiseb ynghylch pleidleisiau ar faterion ar lefel Llywodraeth Leol.

Ym mis Gorffennaf, cyhoeddwyd y Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol, a oedd yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol Llywodraeth Leol. Byddaf yn cyhoeddi Papur Gwyn pellach ar Ddiwygio Llywodraeth Leol yn y Flwyddyn Newydd. Bydd pwyslais y papur hwn ar ddod â Llywodraeth Leol yn nes at y bobl, gan rymuso pobl a chymunedau, ac yn cryfhau eu dylanwad dros benderfyniadau a wneir gan Awdurdodau Lleol. Bydd syniadau megis y rhai yn y ddeiseb hon yn cael ei ystyried fel rhan o'r raglen Diwygio Llywodraeth Leol.

Leighton Andrews AC / AM
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence: Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk
Printed on 100% recycled paper

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i **Tudalen 100% o pecyn 80**

P-04-596 Achub Gorsaf Dân y Porth – MAE'R EILIADAU'N CYFRIF!

Manylion:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i adolygu'r cynnig i gau gorsaf dân y Porth, sy'n golygu y bydd cymunedau'r Porth 10 i 15 munud o daith i ffwrdd oddi wrth yr injan dân agosaf, a leolir naill ai yn Nhonypandy neu yn Nhrefforest.

Oherwydd y toriadau yn y sector cyhoeddus a'r adolygiad o'r gwasanaeth tân sy'n cael ei gynnal, mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi cynnig bod gorsaf dân y Porth yn cau'n barhaol. Felly ni fydd gwasanaeth tân yng nghymuned y Porth.

Prif ddeisebydd : Gerwyn James

Ysytirwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 23 Medi 2014

Nifer y llofnodion: 5 llofnod a'r lein ac mwy na 9,000 llofnod papur.



Eich cyf/Your ref P-04-596
Ein cyf/Our ref: LA/05065/14

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

9 Hydref 2014

Annwyl William,

Rwy'n ymateb i'ch llythyr dyddiedig 30 Medi i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch y ddeiseb gan Gerwyn James yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i adolygu'r cynnig i gau Gorsaf Dân Porth. Rwy'n ateb oherwydd diddordebau etholaethol y Gweinidog.

Rwy'n ymwybodol o'r Adolygiad o'r Gwasanaeth Tân a gynhaliwyd gan Awdurdod Tân ac Achub De Cymru ar draws ei holl ardal.

Mae Awdurdodau Tân ac Achub yn gyrrff ymreolaethol ac annibynnol. Eu cyfrifoldeb nhw yw cynnal lefel briodol o wasanaethau yn eu hardaloedd, yn seiliedig ar gyngor proffesiynol y Prif Swyddogion Tân. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bŵer i herio neu wrthdroi penderfyniadau o'r fath, felly nid oes unrhyw sgôp i ni wneud dim am hyn.

Yn gywir

CARWYN JONES